CANLLAWIAU

# Rheoli'r broses o symud myfyrwyr i ddysgu ac addysgu yn y cnawd ym mis Ionawr

**Canllawiau i brifysgolion ar fyfyrwyr yn dychwelyd ar gyfer y tymor newydd.**

Rhan o:
Addysg uwch: coronafeirws

Cyhoeddwyd gyntaf:
7 Rhagfyr 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
7 Rhagfyr 2020

### Cynnwys

Trosolwg
Amrywio dyddiadau dechrau
Profion asymptomatig
Cadw ar wahân
Myfyrwyr yn teithio ac ymddygiad cyfrifol

## Trosolwg

Caiff y camau canlynol eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a phrifysgolion i liniaru'r risgiau y caiff y Coronafeirws ei drosglwyddo pan fydd myfyrwyr addysg uwch yn symud rhwng eu cartrefi a'u cyfeiriadau yn ystod y tymor ar ddechrau'r tymor nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y tri maes canlynol o weithgarwch i liniaru unrhyw risgiau y bydd cynnydd yn lefelau trosglwyddo'r feirws pan fydd myfyrwyr yn teithio:

- cydgysylltu proses o amrywio dyddiadau dechrau o fewn prifysgolion a rhyngddynt
- cynllun peilot profion asymptomatig ym mhob prifysgol
- cyfathrebu a negeseuon mewn perthynas â chyfrifoldeb personol a rheoli risgiau

## Amrywio dyddiadau dechrau

Bydd dyddiadau dechrau'r tymor nesaf yng Nghymru yn amrywio'n naturiol gan y bydd dyddiadau dechrau'n amrywio rhwng prifysgolion gwahanol yn y sector, cyrsiau gwahanol a grwpiau blwyddyn gwahanol.

Fodd bynnag, bydd mwy o amrywiaeth rhwng dyddiadau dechrau yn golygu y gellir rheoli'r galw am brofion llif unffordd a chefnogi gwaith olrhain cysylltiadau, gan y bydd modd rheoli niferoedd y myfyrwyr a gaiff ganlyniadau positif mewn profion llif unffordd neu brofion PCR dros gyfnod o bedair wythnos.

Rydym yn gofyn i fyfyrwyr beidio â theithio i'w cyfeiriadau yn ystod y tymor cyn 11 Ionawr, oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi negeseuon ac ymgyrchoedd cyfathrebu priodol.

Rydym yn gofyn i brifysgolion beidio â dechrau'r rhan fwyaf o ddysgu yn y cnawd tan ar ôl 11 Ionawr. Rydym yn cydnabod y bydd angen i rai cyrsiau ailddechrau'n gynharach, yn enwedig y rhai hynny sy'n cynnwys lleoliadau clinigol neu lle mae angen defnyddio labordai.

Nid gohirio dechrau'r tymor yw hyn. Dylai prifysgolion gynllunio i ailddechrau yn ôl y bwriad gan ddefnyddio dysgu ar-lein, a dylai prifysgolion rannu eu cynlluniau i ailddechrau addysgu yn y cnawd â'u myfyrwyr. Gan fod angen cynllunio yn unol â'r trefniadau profi, gall dysgu yn y cnawd ailddechrau'n hwyrach nag a ragwelwyd yn flaenorol.

Dylai prifysgolion bennu'r dyddiadau â blaenoriaeth ar gyfer ailddechrau dysgu yn y cnawd yn seiliedig ar anghenion dysgwyr. Gall hyn olygu y bydd angen i fyfyrwyr sydd ar leoliadau, ar gyrsiau perthynol i ofal iechyd yn ogystal â chyrsiau lle mae angen defnyddio cyfleusterau ar y safle a chyrsiau sy'n cynnwys elfennau ymarferol ddychwelyd yn gyntaf.

Dylai prifysgolion â charfanau mawr o fyfyrwyr sy'n cymudo ystyried anghenion eu myfyrwyr wrth gynllunio dyddiadau ailddechrau dysgu yn y cnawd. Efallai na fydd yn briodol amrywio'r dyddiadau dechrau ar gyfer y myfyrwyr hyn yn yr un ffordd â'r rhai a deithiodd ar gyfer y gwyliau.

Dylai anghenion myfyrwyr a arhosodd yn eu llety yn ystod y tymor drwy gydol y gwyliau gael eu hystyried hefyd, gan gynnwys darparu gofal bugeiliol a gwasanaethau cymorth.

Wrth wneud penderfyniadau, dylai prifysgolion hefyd ystyried anghenion myfyrwyr y gall fod angen iddynt ddychwelyd i'w llety yn ystod y tymor yn gynharach am resymau eraill, er enghraifft, myfyrwyr na fydd llety neu fan astudio amgen ar gael iddynt, y rhai y bydd angen iddynt ddychwelyd i'r gwaith, neu'r rhai y bydd angen iddynt ddychwelyd am resymau iechyd.

Ar y campysau, gall cyfleusterau aros ar agor mewn ffordd ddiogel o ran COVID-19 er mwyn i fyfyrwyr allu defnyddio gwasanaethau addysgol fel llyfrgelloedd, mannau astudio neu labordai, er enghraifft.

Dylai prifysgolion ddefnyddio prosesau asesu risg ffurfiol er mwyn sicrhau na fydd y flaenoriaeth a roddir i ailddechrau dysgu cyfunol yn raddol yn rhoi myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig dan anfantais. Dylai asesiadau effaith effeithiol roi tawelwch meddwl y caiff anghenion dysgu a byw myfyrwyr eu hystyried yn briodol ac, yn eu tro, lywio penderfyniadau ynghylch symud ymlaen â'r gwaith o gyflwyno cyrsiau drwy ddulliau dysgu cyfunol.

Rhaid i brifysgolion sicrhau eu bod yn parhau i ddilyn canllawiau ar gampysau diogel o ran COVID-19.

## Profion asymptomatig

Rydym yn gofyn i brifysgolion barhau i gynnig profion asymptomatig er mwyn cefnogi myfyrwyr wrth iddynt ddychwelyd ar ddechrau'r tymor.

Dylai prifysgolion baratoi i allu cynnig profion i'w holl fyfyrwyr a staff.

Fodd bynnag, gall fod angen i brifysgolion flaenoriaethu profion er mwyn rheoli llifau myfyrwyr a chefnogi'r cyrsiau y nodir bod angen iddynt ailddechrau gweithgareddau yn y cnawd gyntaf.

Dylai pob myfyriwr sy'n symud i'w lety yn ystod y tymor gael blaenoriaeth o ran gallu cael profion. Fodd bynnag, dylai unrhyw fyfyriwr a arhosodd yn ei gyfeiriad yn ystod y tymor neu sy'n cymudo i'r brifysgol allu cael profion llif unffordd hefyd.

Dylai prifysgolion gynnig dau brawf asymptomatig, gyda'r ail dridiau ar ôl y cyntaf.

## Cadw ar wahân

Dylai myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y broses brofi gadw ar wahân am dridiau rhwng y profion. Bydd cyfnod byr gwirfoddol o gadw ar wahân rhwng y profion yn golygu bod yn arbennig o ofalus i sicrhau cyn lleied â phosibl o gysylltiadau cymdeithasol ac osgoi mynd allan heblaw am resymau hanfodol fel cael gofal meddygol neu wneud ymarfer corff ar eich pen eich hun neu gyda rhywun o'ch aelwyd yn yr awyr agored.

Dylid gofyn i fyfyrwyr nad ydynt yn cymryd rhan yn y broses brofi gadw ar wahân am 14 diwrnod. Bydd hyn yn golygu bod yn arbennig o ofalus i sicrhau cyn lleied â phosibl o gysylltiadau cymdeithasol ac osgoi mynd allan heblaw am resymau hanfodol fel cael gofal meddygol neu wneud ymarfer corff ar eich pen eich hun neu gyda rhywun o'ch aelwyd yn yr awyr agored.

Elfen ymddygiadol yw hyn ac rydym yn cydnabod y bydd hyn yn gofyn am gyfranogiad gwirfoddol gan fyfyrwyr. Rydym yn gofyn i brifysgolion annog myfyrwyr i gymryd rhan yn y broses brofi a chadw ar wahân cyn iddynt ddychwelyd i addysgu yn y cnawd neu ddefnyddio unrhyw wasanaethau eraill ar y campws yn y cnawd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi prifysgolion drwy ddarparu negeseuon ac asedau ymgyrchu i brifysgolion eu dosbarthu i'w myfyrwyr a'u staff a'u rhannu ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Byddai angen cynyddu'r gallu i brofi yn y mwyafrif o sefydliadau, am gyfnod byr, er mwyn galluogi'r lefel hon o brofi torfol. Bydd y cyfnod y bydd ei angen i brofi'r mwyafrif o fyfyrwyr yn dibynnu ar faint o brofion y bydd eu hangen a faint o fyfyrwyr a fydd yn symud i gyfeiriad yn ystod y tymor.

Er mwyn hwyluso'r lefel hon o brofi, dylai prifysgolion amrywio dyddiadau dechrau addysgu yn y cnawd. Byddem yn disgwyl i broses o ddychwelyd yn raddol ddigwydd dros gyfnod byr. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer y myfyrwyr ac argaeledd profion. Dylai prifysgolion wneud cais am gyflenwadau erbyn 8 Rhagfyr er mwyn sicrhau y cânt eu danfon ym mis Ionawr. Os yw'r brifysgol yn bwriadu cynnig profion i fyfyrwyr a staff, dylai'r archeb adlewyrchu hyn.

Bydd profi unigolion pan fyddant yn dychwelyd yn helpu i dorri'r cadwyni trosglwyddo drwy adnabod unigolion heintus yn gynnar cyn iddynt allu lledaenu'r feirws i gysylltiadau agos, am ei bod yn debygol y bydd achosion asymptomatig ymhlith y myfyrwyr wrth iddynt ddychwelyd i'w llety yn ystod y tymor ar ôl cyfnod o gymysgu â theulu a ffrindiau yn ystod y gwyliau. Yn y tymor hwy, y gobaith yw y bydd profi myfyrwyr pan fyddant yn cyrraedd yn lliniaru'r risg y bydd angen i niferoedd mawr o fyfyrwyr hunanynysu fel cysylltiadau agos ac yn rhoi'r tawelwch meddwl angenrheidiol i'r cyhoedd y gall myfyrwyr addysg uwch ddychwelyd i drefi a dinasoedd prifysgol yn ddiogel.

Nod y cyfnod byr o gadw ar wahân rhwng profion yw lleihau'r cymysgu rhwng aelwydydd myfyrwyr ar ddechrau'r tymor. Y gobaith yw y bydd argymell cyfnod cadw ar wahân o 14 diwrnod i fyfyrwyr na fyddant yn cael prawf llif unffordd asymptomatig yn cymell myfyrwyr i gael prawf.

## Myfyrwyr yn teithio ac ymddygiad cyfrifol

Nid pan fydd addysgu yn y cnawd ar y campws yn ailddechrau y bydd myfyrwyr yn teithio o reidrwydd, gan y gall llawer o fyfyrwyr sy'n byw yn y sector rhentu preifat aros yn eu llety y tu allan i ddyddiadau'r tymor.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i fyfyrwyr beidio â theithio i'w llety yn ystod y tymor cyn 11 Ionawr, oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol, ac i deithio pan fydd addysgu yn y cnawd yn ailddechrau.

Gall fod angen dychwelyd i lety yn ystod y tymor er mwyn ailddechrau gweithio neu astudio, i wirfoddoli, neu am fod angen i fyfyrwyr barhau â'u lleoliadau.

Dylid gofyn i fyfyrwyr beidio â dychwelyd i'w llety yn ystod y tymor nes y bydd eu cyrsiau'n ailddechrau addysgu yn y cnawd.

Dylid annog myfyrwyr a fydd yn dewis dychwelyd i'w llety yn ystod y tymor i ymddwyn yn gyfrifol a chydymffurfio â'r mesurau cenedlaethol sydd ar waith i gadw Cymru'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys aros allan o gartrefi ei gilydd, ac eithrio o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn, ceisio cyfyngu ar nifer y bobl y byddant yn cwrdd â nhw, cadw pellter cymdeithasol a golchi eu dwylo'n rheolaidd. Dylid rhoi gwybod i fyfyrwyr na fydd partïon Nos Galan gyda phobl nad ydynt yn byw gyda nhw yn bosibl eleni, yn anffodus.

Gall prifysgolion gynnig profion o 4 Ionawr ymlaen lle y bo'n briodol. Bydd hyn yn cefnogi myfyrwyr a fydd yn dychwelyd cyn hynny o bosibl, myfyrwyr a fydd yn aros ar y safle drwy'r gwyliau, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol, a myfyrwyr sy'n cymudo'n ddyddiol.

Ar y campws, gall cyfleusterau aros ar agor a dylai prifysgolion sicrhau eu bod yn ddiogel o ran COVID-19 a dilyn y canllawiau priodol ar gyfer y diwydiant ac unrhyw gyfyngiadau, er enghraifft y rhai ar gyfer campfeydd a safleoedd arlwyo.

**Cyhoeddwyd gyntaf**
7 Rhagfyr 2020

**Rhan o**
Addysg uwch: coronafeirws

**Diweddarwyd ddiwethaf**
7 Rhagfyr 2020